LANAnC23

Paratoi côt ci yn barod ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud a pharatoi côt ci yn barod ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu. Bydd hyn yn cynnwys tynnu blew ychwanegol, clymau a drysni gan ddefnyddio technegau a chyfarpar addas.

Mae'n cynnwys defnyddio technegau ymdrin perthnasol a diogel, adnabod mathau o gotiau ac adnabod arwyddion o blâu parasitiaid neu annormaleddau eraill.

Eich cyfrifoldeb chi yw monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, y ci a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu dyletswydd gofal yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid.

Lle bo angen, cadarnhau bod y penderfyniad i dorri côt y ci yn unol â pholisïau'r gweithle.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sydd yn paratoi côt ci yn barod ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad eich hun
2. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, y gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
3. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. asesu'r ffordd y byddwch yn darparu anghenion lles gofynnol y ci o dan eich dyletswydd gofal a chytuno ar y gwaith gyda'r cleient
5. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol â'r ddeddfwriaeth berthnasol
6. sicrhau bod yr ardal waith lle byddwch yn paratoi côt y cŵn yn ddiogel, yn gadarn, yn lân ac yn barod i'w defnyddio
7. dewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw offer ar gyfer paratoi côt ci yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau eich sefydliad
8. dewis, gwisgo a chynnal a chadw dillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) addas
9. arsylwi ac adnabod ymddygiad y ci sydd yn cael ei baratoi ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu a chofnodi hyn lle bo angen
10. trafod ac atal y ci mewn ffordd sydd yn lleihau straen ac yn cynnal iechyd, lles a diogelwch y ci a phawb sydd yn gysylltiedig
11. sganio'r ci sydd yn cael ei baratoi ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu i chwilio am ficrosglodyn, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer cysylltiedig
12. paratoi côt y ci yn barod ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu gan ddefnyddio technegau ac offer sydd yn addas ar gyfer math o gôt ci a'i gyflwr ac ar gyfer yr arddull i'w gyflawni, gan leihau anesmwythdra a thrallod yr holl amser
13. cael cyngor os oes gan gôt y ci glymau sylweddol
14. gwybod pan mae arsylwi'r ci yn datgelu plâu posibl neu gyflwr anarferol ac adrodd am hyn wrth y person perthnasol
15. lle bo angen, torri ewinedd y ci gan ddefnyddio cyfarpar addas gan ofalu osgoi'r byw ac achosi unrhyw boen neu waedu
16. trosglwyddo'r ci i'r ardal gywir ar gyfer y weithdrefn nesaf a

chadarnhau ei fod yn ddiogel ac yn gadarn

17. ymdrin â gwastraff yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol â'r ddeddfwriaeth berthnasol
18. glanhau, sterileiddio a storio'r offer a ddefnyddir yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd, a pholisïau eich sefydliad, ac adrodd am unrhyw namau wrth y person perthnasol
19. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'ch sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich cyfrifoldebau proffesiynol fel ysgrafellwr cŵn a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig, polisïau sefydliadol â'r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. pwysigrwydd gwirio cofnodion yr anifail a chwblhau'r gweithgaredd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, a pholisïau'r sefydliad, â'r gofynion cyfreithiol perthnasol
5. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn, er mwyn sicrhau bod anghenion y cŵn yn cael eu bodloni
6. sut i asesu a mynd i'r afael ag anghenion lles y ci o dan eich dyletswydd gofal
7. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch â'rdulliau ar gyfer cyflawni hyn
8. y mathau o offer sydd yn ofynnol ar gyfer paratoi côt ci ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu, a sut i ddewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw gan ddilyn y ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau sefydliadol
9. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
10. pwysigrwydd gwneud y gwaith fel y cytunwyd gyda'r cleient
11. pam y mae'n bwysig arsylwi ac asesu iaith corff y ci cyn dechrau gwaith a pha arwyddion i edrych amdanynt
12. mathau a nodweddion cotiau'r cŵn yr ydych yn gweithio gyda nhw
13. sut i fynd at gŵn, eu trafod a'u hatal mewn ffordd sydd yn lleihau straen ac yn cynnal iechyd, lles a diogelwch y ci a phawb sydd yn gysylltiedig
14. y dulliau gwahanol o baratoi cotiau sydd yn addas ar gyfer y ci yr ydych yn gweithio gydag ef, fel golchi cyn tocio neu dynnu'r gôt cyn golchi

15. pam y gall math ac arddull y gôt i gael ei chyflawni effeithio ar y dulliau â'r technegau a ddefnyddir ar gyfer paratoi cotiau a'r offer y dylid eu defnyddio
16. sut i ysgrafellu côt, gan dynnu clymau, drysni a blew marw heb achosi anaf neu drallod i'r ci
17. arwyddion trallod mewn ci â'r camau y dylid eu cymryd pan welir y rhain
18. sut mae llosgiadau ffrithiant yn digwydd a sut gellir eu hosgoi
19. anatomeg a ffisioleg ci er mwyn trafod a gweithio gyda'r ci yn ddiogel
20. pwysigrwydd cynnal gwiriad iechyd gan adnabod arwyddion annormalrwydd neu blâu o barasitiaid gyda'r ci â'r camau i'w cymryd os bydd y rhain yn cael eu canfod
21. sut i wybod pryd bydd angen torri ewinedd ci a sut i wneud hyn yn ofalus, gan osgoi anaf neu boen i'r ci
22. sut i drafod, storio a gwaredu'r mathau gwahanol o wastraff yn unol â'r arferion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
23. sut i wirio, glanhau, sterileiddio a storio offer ar gyfer paratoi cotiau cŵn yn unol â'r ddeddfwriaeth berthasol, canllawiau'r cynhyrchydd a pholisïau eich sefydliad
24. pwysigrwydd darparu llety addas ar gyfer cŵn rhwng cyfnodau ysgrafellu
25. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â pharatoi côt ci a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac ymarfer sefydliadol

Cwmpas/Ystod

Paratoi'r mathau canlynol o gôt ci:

1. gwlan
2. weiar
3. sidan
4. dwbl – hir a byr
5. llyfn

Defnyddio'r offer canlynol i dynnu clymau, drysni a blew marw o gôt y cŵn:

1. crib a brwsh
2. offer dad-ddrysu

Cynnal yr arsylwadau canlynol o'r ci:

1. traed, ewinedd a phadiau
2. cyflwr y clustiau
3. ceg, dannedd a deintgig
4. croen a chôt
5. parasitiaid mewnol ac allanol
6. llygaid
7. ardal yr organau cenhedlu â'r ardal dethol
8. chwarennau rhefrol

Geirfa

Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)
- Deddf Llawfeddygon Milfeddygol

Gallai cyfarpar a dillad diogelu gynnwys:

- menig
- ffedog

Mae Person Perthnasol yn cynnwys:

- perchennog
- milfeddyg
- rheolwr
- goruchwyliwr

Paratoi côt ci yn barod ar gyfer ei olchi neu ei ysgrafellu

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2020
Indicative Review Date	Chwefror 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANAC8.1
Galwedigaethau perthnasol	Gofal anifeiliaid
Cyfres/Set	Gofal a Lles Anifeiliaid
Geiriau Allweddol	cŵn; tocio; ysgrafellu